# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)21-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Rosemary Butler, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Nick Bourne, y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Y Llywydd. Yr oedd y Dirprwy Lywydd yn cadeirio'r cyfarfod. Hefyd cafwyd ymddiheuriadau gan William Graham ac yr oedd Nick Bourne yn dirprwyo drosto.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)20-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i Ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)21-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai'r datganiad Deddfwriaethol ar y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth, hefyd yn cynnwys y Strategaeth Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth yr 8fed Gorffennaf. Dywedodd y byddai 45 munud o amser yn cael ei neilltuo i'r datganiad.

3.2 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 4.30pm ar gyfer busnes y Llywodraeth ddydd Mawrth a busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ddydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor y drefn busnes ar gyfer 8 a 9 Gorffennaf 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)21-08(p2)**

3.4 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai dadl o dan Reol Sefydlog 22.34 ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethollll) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 (Plant Agored i Niwed) yn digwydd ddydd Mawrth 15fed o Orffennaf.

3.5 Nododd y Pwyllgor Fusnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf .

Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf **- BC(3)21-08(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau o fusnes heblaw busnes y Llywodraeth a ganlyn :

Dadl ar gynnig Janet Ryder ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch arddangos baneri cenedlaethol a motiffau ar Blatiau Cofrestru Cerbydau ar 1 Hydref.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth .

**Papur ar Drefn Busnes y Cynulliad - BC(3)19-08(p4)**

3.9 Gofynnodd y Cadeirydd i Reolwyr Busnes nodi beth ddigwyddodd wrth iddynt ymgynghori ag Aelodau mewn cysylltiad â threfn busnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y pwyntiau canlynol yn ystod y trafodaethau :

Yr oedd consensws cyffredinol i newid amseroedd y Cyfarfodydd Llawn i 1.30pm - 6pm ar ddyddiau Mawrth a Mercher.

Derbyniodd Rheolwyr Busnes nad oedd y trefniadau presennol ar gyfer trefn busnes pwyllgorau yn gynaliadwy. Felly gofynasant am bapur pellach ar drefn busnes Pwyllgorau erbyn diwedd mis Gorffennaf, yn rhoi mwy o fanylion am opsiynau posibl ac ar oblygiadau cael pwyllgorau parhaol i ddelio gyda deddfwriaeth. Byddai'r Pwyllgor Busnes yn rhoi blaenoriaeth i drafod hyn eto yn union wedi toriad yr haf.

Ni ddylai Busnes Ffurfiol y Cynulliad yn gyffredinol ddigwydd ar ddyddiau Gwener.

3.10 Er na chafwyd barn unfryd, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol hyn hefyd:

Yr oedd barn ymhlith rhai Rheolwyr Busnes y gallai Cyfarfodydd Llawn ar foreau Iau gael eu trefnu mewn rhai amgylchiadau neilltuol.

Dywedodd rhai Rheolwyr Busnes fod eu pleidiau hwy'n fodlon i Bwyllgorau gyfarfod ar brynhawniau Llun, neu ar fin nosau ar ôl Cyfarfodydd Llawn.

Dylai cyfarfodydd pwyllgor llai aml ond hirach gael eu cyflwyno er mwyn lleihau gwasgu ar yr amserlen.

Ni ddylai Pwyllgorau a Chadeiryddion gael eu cyfyngu sut maent am weithredu pan fo'u haelodau yn gytûn.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Cais gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Mercher 16 Gorffennaf 2008 - BC(3)21-08(p4)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Mercher 16eg Gorffennaf, yn amodol ar a fydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar gael .

**Cais gan y Pwyllgor Darlledu i gyfarfod yn ystod Cyfarfod Llawn - BC(3)21-08(p5)**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Darlledu i gyfarfod yn ystod y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 8 Gorffennaf, i wneud yn derfynol ei adroddiad.

**5. Rheol Sefydlog 25: Gweithdrefn Cynulliad Arbennig**

**Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar gynnal trafodion yn briodol yn unol â Rheol Sefydlog 25.19 i 25.24 - BC(3)21-08(p6)**

5.1 Unwaith eto trafododd y Pwyllgor gynnig i sefydlu Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig i ystyried deisebau yn erbyn y Gorchymyn Gweithdrefn Cynulliad Arbennig cyntaf i'w gyflwyno gan Lywodraeth y Cynulliad - "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-".

5.2 Nododd y Pwyllgor fod awgrym wedi'i wneud nad oedd angen i'r Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig fod â chydbwysedd rhwng y pleidiau. Dywedodd Adrian Crompton, yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Rheolau Sefydlog, y dylai'r Pwyllgor fod â chydbwysedd rhwng y pleidiau, oni bai nad oedd hynny'n "ymarferol resymol". Dywedodd hefyd y dylai'r Pwyllgor gynnwys 5 Aelod gan y gallai bod â 4 Aelod ei gwneud yn ofynnol i'r Cadeirydd ddefnyddio Pleidlais Fwrw yn ystod ystyriaethau ar y Gorchymyn.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai cynnig i atal Rheolau Sefydlog gael ei gyflwyno ar y canlynol:

Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 25.19 a 25.20;

Cynnig i fabwysiadu Canllawiau i Aelodau ar gynnal trafodion yn briodol mewn cysylltiad â Phwyllgorau Gweithdrefn Cynulliad Arbennig, a gyhoeddwyd yn unol â Rheol Sefydlog 2.17; a

Cynnig i sefydlu ac i ethol Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig. Byddai pump o Aelodau ar y Pwyllgor: dau Aelod o'r Blaid Lafur ac un Aelod o bob plaid arall.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**